**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 – Adran F**

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Rhagfyr 2000 i’w hateb ar 19 Rhagfyr 2000**

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi’i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw drafodaethau a gafodd gydag aelodau Llywodraeth San Steffan ynghylch y rhaglen ddeddfwriaethol a amlinellwyd yn Araith y Frenhines. (OAQ8621)

**2. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y camau y mae’n eu cymryd i sicrhau na fydd Cymru yn dioddef o ganlyniad i ehangu’r Undeb Ewropeaidd. (OAQ8591)

**3. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae’n bwriadu sefydlu perthynas agored ac atebol fwy effeithiol rhwng Cabinet y Cynulliad a phobl Cymru. (OAQ8610)

**4. Peter Rogers (Gogledd Cymru);** Fel y Prif Weinidog dros Ogledd Cymru, pa gynrychioliadau a dderbyniodd ynglyn â’r bwriad i ddynodi Afon Menai yn Ardal Gadwraeth Arbennig. (OAQ8607)

**5. Alun Pugh (Gorllewin Clwyd);** A gafodd drafodaeth ynghylch y llifogydd diweddar yng Ngogledd Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. (OAQ8623)

**6. Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff ddatganiad byr ar swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol y DU sy’n effeithio ar Gymru. (OAQ8613)

**7. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gamau a gymerwyd ganddo i ddatblygu fframwaith ar gyfer trafod deddfwriaeth sylfaenol y dyfodol sy’n effeithio ar Gymru gyda Llywodraeth y DU. (OAQ8617)

**8. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau a gafodd gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cydlynu polisi ar faterion trawsbynciol. (OAQ8619)

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);** A wnaiff ddatganiad ar y manteision penodol i Gymru a gynhwyswyd yn Araith ddiweddar y Frenhines yn Senedd San Steffan. (OAQ8592)

**10. Karen Sinclair (De Clwyd);** Pa drafodaethau a gafodd gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a’r Rhanbarthau ynglyn â chynnig URBAN2 Wrecsam. (OAQ8594)

**11. Brian Hancock (Islwyn);** A wnaiff ddatganiad ar gyflwyno ‘Protocol ar Ryddid Gwybodaeth’ erbyn diwedd 2000. (OAQ8609)

**12. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** A wnaiff ddatganiad byr ynglyn â chynnydd yr adolygiad cyfansoddiadol. (OAQ8608)

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);** Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn sicrhau bod y polisïau sy’n cael eu datblygu gan y Cynulliad yn mynd i’r afael â materion trawsbynciol, megis cynaliadwyedd, cyfle cyfartal a dysgu gydol oes. (OAQ8618)

**14. Elin Jones (Ceredigion);** Sut y bydd yn sicrhau y bydd holl bolisïau’r Cynulliad yn rhoi ystyriaeth i bolisïau amgylcheddol. (OAQ8611)

**15. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff adrodd ar y cynnydd y mae wedi’i wneud mewn perthynas â chydlynu polisi ar gyfer Gogledd Cymru. (OAQ8590)

**16. Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa ymgynghoriad a fu rhyngddo ef a Phrif Weinidog Prydain ynglyn â’r camau y bydd angen eu cymeryd i wireddu rhaglen lywodraethol y glymblaid Lafur-Ryddfrydol yng Nghymru. (OWAQ8622)

**17. Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** A wnaiff ddatganiad ynghylch y gynrychiolaeth o Ogledd a Gorllewin Cymru yn y Cabinet. (OAQ8588)**TYNNWYD YN OL**

**18. David Davies (Sir Fynwy);** A wnaiff ddatganiad ar unrhyw gamau a gymerwyd i hyrwyddo trafodaethau â’r Gwasanaeth Sifil yng Nghymru ar ei berthynas â’r Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ8606)

**19. Alison Halford (Delyn);** Pa gamau fydd yn cael eu cymryd i gydlynu polisi yng Ngogledd Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant y cynlluniau a gynhwysir yn "Rhoi Cymru’n Gyntaf". (OAQ8595)

**20. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff ddatganiad cryno ar gyfraniad Cymru tuag at y gwaith o ddatblygu polisi mewn perthynas â’r newid yn yr hinsawdd ar lefel Ewropeaidd. (OAQ8616)**TYNNWYD YN OL**

**21. Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff ddatganiad ar y cynnydd a wnaed o ran gweithredu *Rhoi Cymru’n Gyntaf*. (OAQ8583)

**22. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar effaith y Papur Gwyn ar Gefn Gwlad ar Gymru. (OAQ8593)**TYNNWYD YN OL**

**23. Peter Black (De Orllewin Cymru**); Pa gamau y mae wedi’u cymryd i sicrhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol fwy o fewnbwn ym Mesurau Llywodraeth y DU. (OAQ8587)

**24. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi’u cael gyda gweinidogion San Steffan ynghylch hwyluso’r broses o ddefnyddio ail-ddeddfwriaeth er mwyn ymdrin ag anghenion Cymru. (OAQ8586) [w]

**25. Pauline Jarman (Canol De Cymru**); Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog mewn perthynas â chodi proffil Cymru o fewn y Deyrnas Unedig. (OAQ8615)**TYNNWYD YN OL**

**26. Helen Mary Jones (Llanelli);** A wnaiff ddatganiad cryno ar yr ymgynghori a fu rhwng y Cynulliad a San Steffan ar bolisi. (OAQ8612)**TYNNWYD YN OL**

**27. David Melding (Canol De Cymru**); A wnaiff ddatganiad ar flaenraglen waith y weinyddiaeth ar gyfer 2000-2001 fel a gyhoeddwyd ar 21 Tachwedd. (OAQ8585)

**28. Gareth Jones (Conwy**); Sut y bydd yn sicrhau bod datblygiad cyffredinol polisïau’r Cynulliad yn mynd i’r afael â chynhwysiant cymdeithasol. (OAQ8620)**TYNNWYD YN OL**

**29. Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** A wnaiff ddatganiad ar beth fydd goblygiadau Araith y Frenhines eleni ar Gymru. (OAQ8589)

**30. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff ddatganiad ar sut y mae wedi gweithredu ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Gogledd Cymru ers i’r Cabinet Partneriaeth gael ei sefydlu. (OAQ8584)